

Dodi atodiadau dros dro i'r gwallt er mwyn gwella steil

Trosolwg

Mae'r safon yma yn cydfodoli â, **SKAHDBRBNST1 Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol a SKAHDBRBNS1 Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau Gwallt, Barbro, Harddwch, Ewinedd, Lles a Holistig.** Mae'r safon yma'n ymwneud â rhywun proffesiynol o faes trin gwallt sy'n dodi atodiadau dros dro er mwyn gwella steil drwy gynyddu maint ac ychwanegu lliw. Gofynnir am y gallu i ymdoddi gwallt ychwanegol i'r steil sydd yno eisoes. Bydd gofyn i chi hefyd wneud gwerthusiad ar ôl y driniaeth ac adfyfrio er mwyn gwelliant parhaus. Bydd rhaid i ddefnyddwyr y safon yma wneud yn siwr bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, y pholisïau, y gweithdrefnau a'r cyfarwyddyd am yr arfer orau. Cynghorir defnyddwyr y safon yma i fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio gyda gofynion cymorth cyntaf yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol.

Y prif ddeilliannau yw:

1. Dodi atodiadau dros dro i'r gwallt er mwyn gwella steil
2. Cael gwared o atodiadau dros dro

Dodi atodiadau dros dro i'r gwallt er mwyn gwella steil

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, cyfarwydddebau a chanllawiau,
2. trafod a darganfod amcanion yr unigolyn a'r canlyniadau a ddymunir, er mwyn cael y wybodaeth ar gyfer y cynllun gwasanaeth dodi atodiadau dros dro i'r gwallt, i gynnwys:
 - 2.1 hanes triniaethau
 - 2.2 steilio bob dydd y gwallt
 - 2.3 ffordd o fyw
 - 2.4 dewisiadau triniaeth amgen
3. gwneud dadansoddiad o'r gwallt a'r croen er mwyn penderfynu ar y cynllun gwasanaeth, i gynnwys:
 - 3.1 **dosbarthiad cyrls y gwallt**
 - 3.2 **nodweddion y gwallt**
 - 3.3 **cyflwr y gwallt**
 - 3.4 cyflwr croen y pen
4. gwneud **profion** er mwyn penderfynu addasrwydd ar gyfer y gwasanaeth dodi atodiad dros dro i'r gwallt, i gynnwys:
 - 4.1 cofnodi a chadw'r canlyniad yn unol â deddfwriaeth data
5. trafod a chytuno ar y math o **atodiadau dros dro i'r gwallt** ac sy'n addas i'r unigolyn, i gynnwys:
 - 5.1 math
 - 5.2 gwëad
 - 5.3 lliwiau'n cyd-fynd
 - 5.4 hyd
 - 5.5 lled
 - 5.6 steil y gwallt
6. cadarnhau a chytuno gyda'r unigolyn, eu bod wedi deall y gwasanaeth arfaethedig i ddodi atodiad dros dro i'r gwallt, i gynnwys:
 - 6.1 gwrth weithredoedd
 - 6.2 adweithiau niweidiol
7. sicrhau cydsyniad gwybodus yr unigolyn ar gyfer y gwasanaeth dodi atodiad dros dro i'r gwallt
8. paratoi'r unigolyn a glanhau'r gwallt a chroen y pen gyda siampŵ yn unol â'r **protocol gwasanaeth dodi atodiad dros dro i'r gwallt ***
9. **cribo a chwythysychu'r gwallt yn unol â'r protocol gwasanaeth dodi atodiad dros dro i'r gwallt**
10. **rhannu'r gwallt yn unol â'r protocol gwasanaeth atodi gwallt dros dro, i gynnwys:**
 - 10.1 **dewis atodiad neu atodiadau dros dro i'r gwallt i gydweddu'n gywir â man triniaeth yr unigolyn**
11. **cribo, llyfnhau a dodi'r atodiad dros dro i'r gwallt, a'i roi'n ddiogel yn agos at wreiddiau'r gwallt**
12. **cwblhau'r gwasanaeth yn unol â'r protocol gwasanaeth dodi atodiad dros dro i'r gwallt, i gynnwys:**
 - 12.1 **personoleiddio'r atodiadau gwallt dros dro drwy steilio'r gwallt yn unol â'r protocol**

Dodi atodiadau dros dro i'r gwallt er mwyn gwella steil

gwasanaeth atodi gwallt dros dro

Gwasanaeth gwaredu*

13. datglymu'r gwallt gan ddefnyddio teclyn addas ar gyfer dosbarthiad cyrls y gwallt a'i gyflwr
14. cael gwared o atodiadau dros dro i'r gwallt gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
15. cadarnhau gyda'r unigolyn ei fod yn fodlon gyda'r canlyniad terfynol
16. monitro iechyd a lles yr unigolyn drwy gydol y gwasanaeth i ddodi atodiad dros dro i'r gwallt neu i gael gwared ohono
17. gweithredu yn y modd cywir os bydd adwaith niweidiol
18. cwblhau cofnodion gwasanaeth yr unigolyn a'u cadw yn unol â deddfwriaeth data
19. defnyddio ymarfer adfyfyriol i werthuso'r gwasanaeth a chymryd camau priodol
20. rhoi **cyfarwyddiadau** a chynghor i'r unigolyn, cyn ac ar ôl y gwasanaeth
21. cofnodi canlyniad yr atodi gwallt dros dro neu gael gwared ohono a'r gwerthusiad ohonynt

Dodi atodiadau dros dro i'r gwallt er mwyn gwella steil

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau doddi atodiad dros dro i'r gwallt a phwysigrwydd gweithio o fewn eich gallu
2. pam ei bod yn rhaid i chi gydymffurfio gydag arfer moesegol a gweithio o fewn gofynion deddfwriaethol; i gynnwys:
 - 2.1 y cyfrifoldebau drosoch chi eich hunain a'ch adeiladau o dan reoliadau trwyddedu yr awdurdod lleol
3. pwysigrwydd ymwneud â, a dogfennu datblygiad proffesiynol parhaus, i gynnwys, polisiau gwybodaeth wedi eu diweddarau, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer arfer gorau
4. yr **anatomeg a'r ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon yma
5. y gwrtharwyddion cymharol a llwyr sy'n berthnasol i'r gwasanaeth gwallt, i gynnwys:
 - 5.1 y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis meddygol a chyfeirio
6. pwysigrwydd adnabod nodweddion afreolaidd ar y croen a niwed i groen y pen, a'u cyfeirio at weithiwr proffesiynol perthnasol ym maes gofal iechyd
7. y mathau o atodiadau dros dro i'r gwallt a'u cyfyngiadau, i gynnwys yr addasiadau sydd eu hangen, mewn perthynas â'r canlynol:
 - 7.1 dosbarthiad y gwallt
 - 7.2 cyflwr y gwallt
 - 7.3 stad y gwallt
 - 7.4 cyflwr croen y pen
 - 7.5 hanes triniaethau/cemegion sydd wedi cronni
 - 7.6 steilio gwallt bob dydd/ffordd o fyw
8. pwysigrwydd gwneud dadansoddiad o'r gwallt a chroen y pen a sut mae hyn yn effeithio ar y dewis o atodiadau dros dro i'r gwallt a'r technegau doddi a ddefnyddir
9. pwysigrwydd gwneud profion a sut gall canlyniadau profion effeithio ar y gwasanaeth doddi atodiad dros dro i'r gwallt
10. sut i adnabod gwallt sydd wedi ei or-brosesu, y risgiau cysylltiedig a'r camau i'w cymryd
11. sut i adnabod trichorrhesis nodosa, y risgiau cysylltiedig a'r camau i'w cymryd
12. sut i addasu technegau doddi atodiad dros dro i'r gwallt ar gyfer pob dosbarthiad o'r blew a'r cyrls
13. y rhesymau pam y dylid cyflawni gwasanaethau lliwio'r gwallt cyn y gwasanaeth doddi atodiad dros dro i'r gwallt
14. pwysigrwydd doddi siampŵ ar y gwallt a chroen y pen cyn y gwasanaeth doddi atodiad dros dro i'r gwallt
15. y rhesymau pam y caiff cyflyrwyr eu hosgoi cyn y gwasanaeth doddi atodiad dros dro i'r gwallt
16. y risg o ddifrod i'r gwallt sy'n gysylltiedig â gwasanaethau doddi atodiad dros dro i'r gwallt
17. sut i ddodi atodiadau dros dro i'r gwallt mewn modd diogel yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
18. pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar gyfer doddi atodiadau dros dro i'r gwallt, i gynnwys:
 - 18.1 rhagofalon diogelwch
 - 18.2 cynnal a chadw
19. sut i gyflawni gwasanaethau doddi atodiad dros dro i'r gwallt

Dodi atodiadau dros dro i'r gwallt er mwyn gwella steil

-
20. amseroedd y gwasanaeth yn unol â'ch polisïau a'ch gweithdrefnau cyfundrefnol
 21. pwysigrwydd ymgynghori gyda'r unigolyn drwy gydol y broses o ddodi atodiadau dros dro i'r gwallt
 22. yr adweithiau niweidiol a gysylltir â'r gwasanaeth dodi atodiadau dros dro i'r gwallt a sut i ymateb iddynt
 23. y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth
 24. y gofynion cyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau i'r gwallt i blant dan oed ac oedolion bregus
 25. pam ei bod hi'n bwysig trafod a sefydlu amcanion yr unigolyn, ei bryderon, disgwyliadau, y canlyniadau y mae'n eu dymuno a chytuno ar y cynllun gwasanaeth dodi atodiadau dros dro i'r gwallt
 26. y strwythurau taliadau a'r dewisiadau ar gyfer triniaeth
 27. y gofynion deddfwriaethol a digollediad er mwyn sicrhau cydsyniad gwybodus wedi'i lofnodi ar gyfer y gwasanaeth
 28. y rhesymau dros gymryd delweddau gweledol gyda chydsyniad o fan triniaeth yr unigolyn, a'u cadw yn unol â gofynion y gwasanaeth, deddfwriaethol, yswiriant a chyfundrefnol
 29. sut i gael gwared o atodiadau dros dro i'r gwallt, i gynnwys addasiadau ar gyfer y canlynol:
 - 29.1 gwallt dynol
 - 29.2 gwallt synthetig
 30. pwysigrwydd cadw difrod i wallt naturiol yr unigolyn mor isel â phosibl yn ystod y broses o gael gwared ohono
 31. pwysigrwydd sicrhau bod yr unigolyn yn gyfforddus a chynnig sicrwydd iddo drwy gydol y broses waredu
 32. sut i bersonoleiddio a siapio'r atodiadau dros dro i'r gwallt er mwyn ymdoddi i'r gwallt naturiol, yn unol â'r protocol gwasanaeth dodi atodiad dros dro i'r gwallt
 33. pwysigrwydd cadw at y protocol gwasanaeth dodi atodiad dros dro i'r gwallt
 34. pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr unigolyn yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth
 35. canlyniadau disgwylidig gwasanaethau dodi atodiad dros dro i'r gwallt
 36. diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso a'r modd y mae'n darparu gwybodaeth er mwyn gwella darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol
 37. y cyfarwyddiadau a'r cyngor, cyn ac ar ôl y gwasanaeth dodi atodiad dros dro i'r gwallt

Dodi atodiadau dros dro i'r gwallt er mwyn gwella steil

Cwmpas/Ystod

Dosbarthiad cyrls y gwallt

1. syth
2. tonnog
3. cyrllog
4. cyrls tynn
5. cyfuniad

Nodweddion y gwallt

*

1. *dwysedd y gwallt*
2. *gwëad y gwallt*
3. *hydwythedd y gwallt*
4. *mandylledd y gwallt*
5. *patrymau tŵf y gwallt*

*Stad y gwallt**

*

1. *gwallt sydd heb ei drin yn gemegol*
2. *gwallt sydd wedi ei drin yn rhannol â chemegion*
3. *gwallt sydd wedi ei drin yn gemegol*

Profion

1. *hydwythedd*
2. *mandylledd*

Atodiadau dros dro i'r gwallt

1. *rhimyn*
2. *cynffon merlen*
3. *"scrunchie"/bynnen anniben*
4. *edau'r gwawllt*
5. *rhwymynnau gwallt*
6. *pen llawn*
7. *pen rhannol*
8. *hir*
9. *byr*
10. *gwallt synthetig*
11. *gwallt dynol*
12. *lliwiau creadigol a dosbarthiad*
13. *tresi'r gwallt*
14. *ychwanegiadau i'r gwallt*
15. *darnau o'r gwallt ar gyfer maint*

Dodi atodiadau dros dro i'r gwallt er mwyn gwella steil

Protocol gwasanaeth doddi atodiad dros dro i'r gwallt

- 1. amgylchedd waith**
- 2. iechyd a diogelwch**
- 3. atal a rheoli haint**
- 4. cynllun gwasanaeth**
- 5. cydsyniad gwybodus**
- 6. rheoli data**
- 7. canlyniadau profion**
- 8. cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr**
- 9. archwilio ac atebolrwydd**
- 10. cyfarwyddiadau a chynghor**
- 11. cynaliadwyedd**
- 12. rheoli gwastraff**
- 13. ymarfer wedi'i seilio ar dystiolaeth**
- 14. ymarfer adfyfyriol**

Cyfarwyddiadau

- 1. hawliau cyfreithiol a chyfrifoldebau yr unigolyn a'r ymarferydd**
- 2. cyfarwyddiadau a gofal cyn ac ar ôl y gwasanaeth**
- 3. cyfyngiadau a risgiau cysylltiedig**
- 4. triniaethau yn y dyfodol**

Anatomeg a ffisioleg

*

1. strwythur a swyddogaeth y gwallt a chylchred tŵf y gwallt
2. strwythur a swyddogaeth y croen
3. strwythur anatomegol sylfaenol y pen, y gwddf a'r ysgwyddau
4. gwrtharwyddion cymharol a llwyr a phatholegau cysylltiedig

Dodi atodiadau dros dro i'r gwallt er mwyn gwella steil

Geirfa

Gwrtharwydd llwyr

Mae gwrtharwydd llwyr yn gyflwr sy'n rhwystro'r gwasanaeth rhag cael ei gyflawni ac a all fod angen cael ei gyfeirio

****Adwaith niweidiol**

Adwaith niweidiol yw adwaith 'annisgwyl' neu ganlyniad yn dilyn gwasanaeth e.e. llewygu

Gwrth weithred

Gwrthweithred yw adwaith neu ganlyniad 'disgwyliedig' yn dilyn gwasanaeth, e.e. erythema

Ymarfer wedi ei seilio ar dystiolaeth

Mae ymarfer wedi ei seilio ar dystiolaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth orau gyfredol, ddilys a pherthnasol sydd ar gael.

Cymorth Cyntaf

Gall cymorth cyntaf gyfeirio at gymwysterau cymorth cyntaf yn y gwaith neu ei gyffelyb neu ymwybyddiaeth o gymorth cyntaf iechyd meddyliol.

Dosbarthiad cyrls y gwallt

Gellir cyfeirio at ddosbarthiad cyrls y gwallt fel Math 1 – 4.

Protocol

Protocol yw gweithdrefn safonol er mwyn sicrhau arfer gorau a chydymffurfiaid pan yn darparu gwasanaethau h.y. dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Gwrtharwydd cymharol

Gwrtharwydd cymharol yw cyflwr sy'n gofyn am asesiad o addasrwydd ar gyfer y gwasanaeth a/neu os oes angen addasiadau.

Cysylltiadau â SGC eraill

SKAHDBRBNST1, SKAHDBRBNST1, SKAHDBR1, SKAHD1, SKAHD2 SKAHDBR2, SKAHDBR3, SKAHDBR4, SKAHDBR5, SKAHDBR6, SKAHDBR7, SKAHDBR8, SKAHDBR9, SKAHDBR10, SKAHDBR11, SKAHDBR12, SKAHDBR13, SKAHDBR15, SKAHDB16, SKAHDB19, SKAHDB20, SKAHDB21, SKABR5

Dodi atodiadau dros dro i'r gwallt er mwyn gwella steil

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	30 Maw 2021
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2024
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKACH7
Galwedigaethau perthnasol	Trinwyr gwallt a Galwedigaethau Cysylltiedig
Cyfres/Set	Trin gwallt a barbro
Geiriau Allweddol	atodiadau dros dro i'r gwallt, rhimyn, cynffon, bynnen gwallt "scrunchie"/anniben, gwallt anwe, gwallt synthetig, gwallt dynol, lliwiau creadigol, tresi'r gwallt, ychwan